

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gerallt Jones

Nos Lun Gorffennaf 1af 2019 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gari Jones, Alun Owen.
2. **Presennol:** Cyng. Gerallt Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddi-ddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mehefin:** cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Paul Weston gyda Edmund Rees yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. Byddwn yn cysylltu gyda Chyngor Conwy i ail drefnu'r 'Audit Walk' ar gyfer yr wythnos nesaf os yn bosibl.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1 CBSC – Arwyddion Dehongli – disgwyl am ateb.
7. **Monitro'r Gyllideb:**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Talu Anfonebau:**
 - 8.1. Meithrinfa Blodau Betws y Coed - cynigiodd Edmund Rees gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu'r anfoneb am dybiau, compost a blodau o **£215.02** gyda siec rhif **100326**. S19
 - 8.2. W Williams – cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Paul Weston yn eilio talu'r anfoneb am y tybiau pren o **£160.00** gyda siec rhif **100327**. S133
9. **Ceisiadau Cynllunio:**
 - 9.1. Cyfeirnod: 0/46416
Ymgeisydd: SP Energy Networks
Cynllun: Llinell Uwchben HV sydd angen caniatâd cynllunio ôl-weithredol
Safle: Tir oddi ar A543 Betws y Coed LL240TD

Cefnogwyd y Cais
10. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:** Nid oedd y Cyng. Sirol yn bresennol.
11. **Unrhyw fater arall:**
 - 11.1. Dim
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Medi 9fed 2019 am 7.30 y.h**

Arwyddwyd _____
Cadeirydd

Dyddiad 09.09.19

Cafwyd cyfarfod brys ar nos Fawrth Awst 13eg 2019 am 7.30 y.h.

Presennol Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Gerallt Jones, Alun Owen, Paul Weston, Cyng. Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams Clerc.

Ymddiheuriadau Cyng. Gwynfor Roberts.

Cafwyd cyfarfod gyda Steve Teale i drafod sefyllfa'r toiledau cyhoeddus ar ôl iddynt gael ei difrodi yn ddiweddar.

Cafwyd caniatâd i dalu'r anfonebau canlynol:

Cynigiodd Gari Jones gyda Paul Weston yn eilio talu'r anfoneb C L Jones am 'decking oil' a brwshys paent o £40.04 + TAW £8.01 = **£48.05** gyda siec rhif **100328**. S19

Cynigiodd Dewi Evans gyda Alun Owen yn eilio talu anfoneb Meithrinfa Blodau Betws y Coed am blanhigion a bylbiau o **£76.59** gyda siec rhif **100329**. S19

Arwyddwyd _____
Cadeirydd

Dyddiad 09.09.2019

